**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

26 Ionawr 2024

Annwyl Jenny,

Y DU/Rwanda: Cytundeb ar gyfer Darparu Partneriaeth Lloches i Gryfhau Ymrwymiadau Rhyngwladol a Rennir i Ddiogelu Ffoaduriaid a Mudwyr

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn gytundebau masnachol yn ystod y Chweched Senedd.

Yn ein cyfarfod ar 8 Ionawr 2024, gwnaethom drafod Cytundeb rhwng y DU a Rwanda ar gyfer Darparu Partneriaeth Lloches i Gryfhau Ymrwymiadau Rhyngwladol a Rennir i Ddiogelu Ffoaduriaid a Mudwyr. Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer creu, cynnal a gorfodi partneriaeth rhwng y DU a Rwanda i ymdrin ag unigolion sydd wedi'u hadleoli o'r Deyrnas Unedig i Rwanda, gan gynnwys ystyried ceisiadau am statws fel ffoadur a phenderfynu ar y ceisiadau hyn.

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad, mae'r Memorandwm Esboniadol yn manylu ar y ddeddfwriaeth ddomestig a fydd yn cael ei defnyddio i roi effaith gyfreithiol i'r cytundeb yn y DU ac yn nodi bwriad Prif Weinidog y DU i gyflwyno deddfwriaeth newydd i gadarnhau diogelwch Rwanda fel trydedd wlad. Yn sgil hynny, cafodd y *Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo)* ei gyflwyno yn Senedd y DU ar 7 Rhagfyr 2023.

Er bod y cytundeb hwn yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, cytunwyd y dylid dwyn sylw eich Pwyllgor ato, yn ogystal ag at y *Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo)*, a hynny er mwyn nodi'r goblygiadau posibl i unigolion sy'n byw yng Nghymru ac sydd wedyn yn cael eu hadleoli i Rwanda.

Mae ein hadroddiad diweddaraf, a osodwyd ar 16 Ionawr 2024, ar gael yma.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd